

Gwasanaeth Cristingl



Trefn Gwasanaeth

Paratoad

Iesu yw Goleuni'r Byd
Goleuni na all tywyllwch byth ei ddiffodd.

Yn enw Crist, croeso i heddiw. Rydyn ni wedi dod ynghyd ym mhresenoldeb Duw ein Tad i lawenhau am gael Iesu yn anrheg i ni fel goleuni'r byd. Yn y gwasanaeth yma fe fyddwn ni'n clywed y stori, ac yn derbyn y neges, am ddyfodiad Crist, ac rydyn ni'n rhoi ein diolch i Dduw mewn gweddi ac ar gân.

Gellir canu emyn priodol

Y Diolch

Arglwydd Iesu, Diolch am Mair, Yr ymwelodd angel a hi, ac a ddaeth yn fam i ti.

Iesu, goleuni'r byd, **Clodforwn ac addolwn di.**

Diolch dy fod ti wedi cael dy eni fel un ohonom ni, nid yn gyfoethog ac mewn palas, ond yn dlawd ac mewn stabl.

Iesu, goleuni'r byd, **Clodforwn ac addolwn di.**

Diolch am y bugeiliaid fu'n gwrando ar gân yr angylion, ac a adawodd eu defaid a phrysuero i'th addoli di. Iesu, goleuni'r byd,
Clodforwn ac addolwn di.

Diolch am y sêr ddewiniaid,
ddaeth ag anrhegion gwerthfawr i ti: aur, thus a myrr.

Iesu, goleuni'r byd, **Clodforwn ac addolwn di.**

Diolch i ti am Simeon ac Anna fu'n disgwyl oes i'th weld, fu'n moli Duw yn y Deml, ac a'th groesawodd di fel goleuni'r byd.

Iesu, goleuni'r byd, **Clodforwn ac addolwn di.**

Arglwydd Iesu, gyda Mair a'r bugeiliaid, gyda'r sêr ddewiniaid, gyda Simeon ac Anna, rydyn ni'n dy glodfori a'th addoli di, oleuni'r byd, yn awr ac am byth. **Amen**

Gweinidogaeth y gair

Darlleniad priodol-mae awgrymiadau yn y llithriadur ar gyfer pob tymor.

*Ar ddechrau neu ar ddiwedd pob darlleniad dywed y darllenydd
Dyma air yr Arglwydd, **Diolch a fo i Dduw.***

Anerchiad

Emyn priodol

Gweddïau: Mae'r Cristingl yn ein hatgoffa o'n byd ac felly gweddiwn:

Am yr holl bobl yn eu bywyd bob dydd a'u gwaith: am ein teuluoedd, ffrindiau a chymdogion, ac am bawb sy'n unig, am bob Cristion, i ni ddisgleirio yn y manau tywyll sy'n y byd.

Mewn ffydd gweddiwn: **Gweddiwn arnat ti, Arglwydd Dduw.**

Am gymorth i ofalu am dy fyd: am y rhai sydd heb y pethau da rydyn ni'n eu cymryd yn ganiataol; am y rhai sydd heb wybod am oleuni Iesu yn eu bywydau;

Mewn ffydd gweddiwn: **Gweddiwn arnat ti, Arglwydd Dduw.**

Am dangnefedd y byd: am ein anghenion ein hunain ac anghenion eraill; am y rhai sy'n ein harwain, yn ein dysgu ac yn ein helpu i fyw gyda'n gilydd.

Mewn ffydd gweddiwn: **Gweddiwn arnat ti, Arglwydd Dduw.**

Am bawb sy'n drist, mewn perygl neu drallod: am yr holl blant a phobl ifanc sydd heb fwyd, dillad na chartref; am y rhai sydd angen cymorth Duw, yn enwedig y rhai sy'n wael ac yn bryderus, yr unig a'r ofnus; ac am y rhai sy'n gofalu amdany'n nhw.

Mewn ffydd gweddiwn: **Gweddiwn arnat ti, Arglwydd Dduw.**

Rydyn ni'n dod â'n gweddïau at Dduw, gan ddweud gyda'n gilydd, fel y dysgodd Iesu ni.

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd. Sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol. A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni I brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Gweddi dros blant sydd mewn angen ac sydd mewn trafferthion.

Dduw tangnefedd, Mae dy gariad yn ymestym atom i'n cofleidio. Bendithia blant a phobl ifanc a theuluoedd ein cenedl, Yn enwedig y rhai hynny sy'n wynebu trafferthion ac anghenion neilltuol. Helpa bawb sy'n gweithio ar brojectau'r Eglwys gyda phlant mewn angen, i gael eu hysbrydoli trwy dy ddealltwaeth a'u cryfhau trwy dy ras, fel y bydd eu gofal yn gefnogaeth arbennig ac yn arwydd o'th deyrnas; lle rwy'ti'n byw ac yn teyrnasu, un Duw; Tad, Mab ac Ysbryd Glân, yn awr ac am byth. Amen.

Goleuo a chyflwyno'r Cristinglau

Dad, a ddywedodd yn y dechreuad 'bydded goleuni', cadw ni yng ngoleuni Crist, i ddisgleirio yn dy fyd, fel y bydd eraill yn gweld beth wnawn ni yn dy enw, a rhoi moliant i ti, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Gellir canu emyn priodol yn ysod yr amser y mae'r Cristinglau yn cael eu rhannu.

Pan fydd y rhoddion wedi'u cyflwyno gellir offrymu'r weddi hon: Bendigedig wyt ti, Arglwydd ein Duw, Brenin Y bydysawd. Mae popeth sydd gennym yn dod oddi wrthy'ti. Helpa ni i ddefnyddio'r rhoddion hyn er dy ogoniant. **Bendigedig fyddo Duw am byth.**

Y Fendith

Llewyrched Crist, Haul cyfiawnder arnoch a gwasgaru'r tywyllwch o'ch blaen; A bendith yr hollalluog Dduw, Y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, fo yn eich plith ac aros gyda chi hyd byth. Amen.

Y Gollwng.

Iesu yw Goleuni'r Byd: **Goleuni na all tywyllwch byth ei ddiffodd.**
Ewch a rhannwch oleuni Crist. **Diolch a fo i Dduw.**